CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE

# Rhwng y Mynyddoedd a'r Môr

Mae lleoliad Gorseinon ar groesffordd sy'n ei wneud yn fan delfrydol i redeg busnes. Gwelodd y Rhufeiniaid potensial yr ardal i ddechrau wrth osod gwersyll hyfforddi yno ac wedyn caer ar Lwchwr, y groesfan i Sir Gaerfyrddin.

Symudodd mynachod canoloesol i'r ardal yn y 2fed ganrif a sefydlu melin d ar y safle a adnabyddir heddiw fel Parc Melin Mynach. O'r 17eg ganrif datblygodd diwydiant gan ddefnyddio adnoddau naturiol yr ardal, y glo o'r mynyddoedd a hygyrchedd y môr gan dramiau a rheilffyrdd lawr i Abertawe ac aber y Bury.

Mae creithiau'r diwydiant trwm yn diflannu gyda chau'r gweithfeydd olaf yn 2001 ac adennill y tir sy'n awr yn Ganolfan Gorseinon. Ond mae'r lleoliad yn dal yn bwysig, wedi ei leoli rhwng y mynyddoedd a'r môr, mae Gorseinon tua 5 munud o gyffordd 47 o'r M4 a thua hanner ffordd rhwng Caerdydd a Hwlffordd sy'n ei wneud yn le delfrydol i gyfarfodydd cyffredinol, rhanbarthol ac arddangosfeydd De Cymru.


**Gyda pharcio rhwydd a rhad mae Canolfan Gorseinon Centre yn eistedd ar y groesffordd i fusnes yn Ne Cymru.**












Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

a: Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | t: 01792 897657 | e: info@gdt.org.uk

CANOLFAN GORSEINON CENTRE

GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE

# Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon

Wedi ei sefydlu ar ôl cau'r olion olaf o ddiwydiant trwm Corus Bryngwyn yn 2001 chwaraea'r ymddiriedolaeth rhan allweddol yn datblygu mentrau atgynyrchiedig a chyfleoedd i bobl sy'n byw a gweithio yn yr ardal.

Daeth yr ymddiriedolaeth yn elusen yn 2008 ac mae'n anelu at ddiogelu canolfan economeg gref i'r Gymuned Leol. Hefyd i greu gwaith a chyfleoedd i gynhyrchu incwm drwy ddatblygu mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu drwy Ganolfan Gorseinon.

**Rhyddhau Potensial**

I dorri rhwystrau, adeiladu cyfleoedd i ymglymu pobl sy'n byw a gweithio yng nghyffiniau Gorseinon, gan adael iddynt gymryd rhan mewn mentrau atgynyrchiedig a rhyddhau eu potensial i'w cyflogi; datblygu hyder a sicrhau gwneud y gorau o sgiliau.

**Creu Man Lle mae Pobl am Fyw a Gweithio**

Creu a datblygu rhwydweithiau a phartneriaethau gwaith i gefnogi adfywiad lleol yn enwedig perthynas gref a'r Awdurdod Lleol. Sicrhau bod mentrau yn cwrdd ag anghenion y gymuned ac yn cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn ffordd sy'n amgylcheddol gynaliadwy.

**Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy**

I gynnal annibyniaeth, i sicrhau hyd y gellid bod y sefydliad yn aros yn ddemocratig gyda threfn lywodraethol gryf ac yn parhau i adlewyrchu amrywiaeth y gymuned a hefyd yn lleisio barn y mwyafrif. Er mwyn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddod yn economaidd gynaliadwy drwy ddatblygu asedau a mentrau cymdeithasol.

Gweithreda'r ymddiriedolaeth gynllun aelodaeth sy'n darparu cyfleoedd am ostyngiadau ar wasanaethau a gynigir o'n canolfan.

**Am wybodaeth bellach cysyllter â'r Ymddiriedolaeth**











Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

**a:** Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | **t:** 01792 897657 | **e:** info@gdt.org.uk

CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE

# Canolfan Gorseinon Centre

Wedi ei lleoli yng nghanol Gorseinon, mae'r ganolfan yn adeilad eco syfrdanol a reolir gan y gymuned, ac yn ganlyniad i adfywiad cymunedol a gymhellwyd ar ôl cau hen waith dur y Bryngwyn yn 2001.

Mae'r ystod o gyfleusterau a gynigir gan Ganolfan Gorseinon yn ei gwneud yn le delfrydol i gynnal gweithgareddau fel seminarau hyfforddi, trafodaethau tîm a chynadleddau.

Mae nifer o ystafelloedd ar gael sy'n amrywiol eu maint gyda'r ystod yn ymestyn o le sy'n addas i bwyllgor hyd at neuadd gynhadledd a fyddai'n addas i gyflwyniadau mawreddog gyda hyd at 150 o gynrychiolwyr.

Beth bynnag yw'r achlysur, bydd ein staff hyfforddedig yn sicrhau bod popeth yn rhedeg yn llyfn, yn broffesiynol ac yn ddi-broblem. Mae arlwyaeth a diodydd ar gael yn y Zest for Life Café sydd wedi ei leoli yn y Ganolfan.

Cynhelir y gwaith celf modern 'Blood, Sweat & Tears' gan Ben Clegg yn y Ganolfan; gwaith sy'n dathlu'r lle canolog a gymer y gwaith dur yn enaid y Gymuned. Mae'r gwaith yr un mor drawiadol yn y nos gyda'i oleuadau LED.

Cydlynwyd y gwaith gan yr Arts Factory.













Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

**a:** Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | **t:** 01792 897657 | **e:** info@gdt.org.uk

CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE

Trusting Hands
Day Nursery

# Meithrinfa 'Trusting Hands'

Ynghlwm wrth Ganolfan Gorseinon mae Meithrinfa 'Trusting Hands' adnodd llawn amser sy'n darparu gofal dyddiol, yn hybu'r cysyniad o ddysgu drwy chwarae ac yn darparu ar gyfer plant o 3 mis i 6 oed. Mae gennym leoedd dysgu yn yr awyr agored er mwyn annog meddyliau chwilfrydig i ymchwilio am y byd o'u cwmpas wrth ymgymryd â gweithgareddau corfforol diogel.

**Cysyllter Am wybodaeth bellach cysylltwch â rheolwr y feithrinfa am wybodaeth bellach.**













Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

**a:** Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | **t:** 01792 897657 | **e:** info@gdt.org.uk

CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE

Zest for life

# Bwyd a Diodydd

Darperir ar gyfer eich holl anghenion arlwyo, boed yn fyrbryd canol dydd, yn frecwast iachus heu'n bwffe cynhadledd, yng Nghaffi Zest for Life a leolwyd yng Nghanolfan Gorseinon.

Mae Zest for Life yn agored i'r cyhoedd ac yn cynnig amrywiaeth o frecwastau iachus, byrbrydau a phrif brydiau sy'n cynnwys bwydydd llysieuol.


Mae'r bwyd i gyd yn gynnyrch lleol ac wedi ei ddarparu'n ddyddiol a defnyddir bwydydd masnach deg lle bo modd.

Mae diodydd poeth, coffi a the arbenigol, smoothies a suddoedd ffrwyth ar gael ac wedi eu darparu'n ffres.

Ceir gwasanaeth rhyngrwyd yn rhad ac am ddim ac mae teledu sgrin fawr i'ch diddanu tra boch chi'n bwyta'r bwydydd blasus.

Am wybodaeth am ein cyfleusterau arlwyo, (sy'n cynnwys diodydd, byrbrydau coffi, te, bwffe oer neu boeth) ar gyfer cyfarfodydd neu gynadleddau, cysyllter â'n rheolwr arlwyo.

**Gellir gofyn am esiamplau o'r bwydlenni.**









Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

a: Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | t: 01792 897657 | e: info@gdt.org.uk

CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE




# Stafelloedd Cynadleddau

Gyda lle i 150 o gynrychiolwyr, y Gynadleddfa yw'r prif leoliad am eich achlysur.


Gyda hyblygrwydd y seddau gallwn drefnu yn ôl arddull theatr, cabaret neu arddangosfa, mewn ystafell a ddyluniwyd i arddangos achlysur cyfundrefnol.


Gyda chyfarpar clyweled cyflawn a dolennu clywedol mae'r 'stafell yn gwbl hygyrch i bawb. Gyda gofodau encil ar gael mae'r Neuadd Gynhadledd yn lle delfrydol i gynnal y cyfarfod arbennig yna.

**Am delerau a gwybodaeth am fwcio'r adnodd cysyllter â rheolwr y ganolfan.**











Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

**a:** Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | **t:** 01792 897657 | **e:** info@gdt.org.uk

CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE

# Ystafelloedd Cyfarfod

Mae gennym dri gofod amryfath i'w llogi, â lle i 30 o bobl, sy'n darparu ystod o gyfleusterau ar gyfer eich cyfarfod unigryw chi. Gellir eu gosod allan mewn dull theatr/cynhadledd neu yn null cyfarfod bwrdd.

**Theatr/Cynhadledd**

| | |
|---|---|
| Pwyllgorfa | 15 |
| G7 Atriwm | 30 |
| G8/9 Ystafell Fwrdd | 20 |

**Arddull Ystafell Fwrdd**

| | |
|---|---|
| F1 Pwyllgorfa | 20 |
| G7 Atriwm | 30 |
| G8/9 Ystafell Fwrdd | 5-20 |

**Am delerau a gwybodaeth am fwcio'r adnodd cysyllter â rheolwr y Ganolfan.**



Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

a: Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | t: 01792 897657 | e: info@gdt.org.uk

CANOLFANGORSEINONCENTRE
GWASANAETHU CYMUNED A MENTER | SERVING COMMUNITY AND ENTERPRISE


# Gweithle Rheoledig

Mae'r ganolfan yn ymfalchïo mewn ystod o swyddfeydd uchel eu safon, o wahanol faint a siâp, ar gael i fusnesau sy'n tyfu neu'n dechrau. Cynigir hwy ar delerau da er mwyn galluogi busnesau bach i dyfu a datblygu'n fwy proffesiynol.

Gall y ganolfan ddarparu cefnogaeth ychwanegol fel gweinyddiaeth swyddfa, ystafelloedd hyfforddi a phwyllgora sydd ar gael i denantiaid am brisiau gostyngedig.

Mae maint y swyddfeydd yn ymestyn o 265 troedfedd i 850 troedfedd ac mae'r Ganolfan yn agos i'r M4, siopau a llwybrau bysus ac mae iddi ddigon o leoedd parcio.

**Am wybodaeth bellach am safleoedd swyddfa cysyllter ag Ymddiriedolaeth Datblygu Gorseinon.**




Images by Bartlett & Morgan and Mike Cahill

**a:** Canolfan Gorseinon Centre, Millers Drive, Gorseinon, Swansea SA4 4QN | **t:** 01792 897657 | **e:** info@gdt.org.uk